## GRŴP

# Antur Creadigol

**Yn syml, eich her ydi dysgu a pherfformio cân mewn arddull 'rap'!**

**OND** yn gyntaf bydd rhaid i chi ddod o hyd i eiriau coll.

Tynnwch eiriau o'r potyn, ar hap. Rhowch y geiriau sy'n odli efo'i gilydd. Penderfynwch pa eiriau sy'n ffitio'r gân.

Bydd gwybod sut mae **odli** yn eich helpu.

Wrth ganu'r gân cofiwch am **guriad** **a** **bît** a **rhythm.**

Wedyn ewch ati fel grŵp i ddysgu'r gân ar eich cof, cyn ei rapio.

Mi fydd gofyn i chi berfformio o flaen gweddill y dosbarth.



MWYNHEWCH!

MYNYDDOEDD
Karen MacIntyre Huws

# Sut i berfformio'n dda!

**Cofiwch feddwl am yr isod wrth baratoi ac wrth berfformio:**

Cofio'r geiriau (nid darllen oddi ar bapur)

Lleisiau clir

Lleisiau uchel (ond ddim gweiddi!)

Eich llygaid ar y gynulleidfa

Eich bod yn llawn egni

Cofiwch wenu!



AMDANI!

MYNYDDOEDD
Karen MacIntyre Huws

# Odli

Pan mae'r sŵn ar ddiwedd dau air yn debyg, rydan ni'n dweud eu bod nhw'n **odli**.

Dyma lond llaw o eiriau sy'n odli

str**yd** ⟶ b**yd**
st**amp** ⟶ l**amp**

tr**wyn** ⟶ ll**wyn**
g**wair** ⟶ ff**air**

a dyma eiriau sydd **ddim yn odli**:

ll**aw** ⟶ ll**anc**
cr**ys** ⟶ cr**oen**

N**ain** ⟶ s**aim**
tr**oed** ⟶ gw**aed**

★ Mae odli yn ei gwneud yn haws cofio penillion a dyna pam bod y rhan fwyaf o ganeuon pop a roc yn defnyddio geiriau sy'n odli.

**Dyma ddau hen bennill sy'n odli:**

Mi welais Jac y **Do**
yn eistedd ar ben **to**,
het wen am ei **ben**
a dwy goes **bren**
"Ho-ho-ho-ho-ho-ho!"

Hen fwnci bach o **Lŷn**
a aeth i dynnu'i **lun**;
edrychodd yn **syn**
a chwarddodd fel **hyn**:
"Hi-hi-hi-hi-hi-hi!"

DA DI ODLI!

MYNYDDOEDD
Karen MacIntyre Huws